WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau chwythu'r chwiban a chwyno yng Nghyngor Sir Penfro


Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 430A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol gan Gyngor Sir Penfro yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn rhinwedd eu swyddogaethau unigol, nac o ran unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, y trydydd partïon perthnasol yw Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, a phan fo hynny'n briodol, mae'r archwiliwr penodedig yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Gwnaed y gwaith hwn gan dîm yn cynnwys Jeremy Evans, Alison Lewis, Ian Phillips a Gareth W. Lewis, dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

## Mae angen i'r Cyngor wella ei fodd o ymdrin â chwythu'r chwiban a chwynion gan weithwyr, a mynd i'r afael â materion a godwyd mewn adolygiadau chwythu'r chwiban blaenorol.


Adroddiad

Cynigion ar gyfer Gwella 5

Atodiadau

Atodiad 1 – cynigion ar gyfer gwella o'n hadolygiad yn 2014 7

Atodiad 2 – argymhellion gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor 2015 9

Atodiad 3 – diffinio chwythu'r chwiban a chwyno 11

# Adroddiad

## Mae angen i'r Cyngor wella sut mae'n ymdrin â chwythu'r chwiban a chwynion gan weithwyr, a mynd i'r afael â materion a godwyd mewn adolygiadau chwythu'r chwiban blaenorol.

1 Mae hi'n bwysig bod gan sefydliadau bolisïau a gweithdrefnau clir i ymdrin â chwythu'r chwiban a chwynion gan weithwyr yn rhan o brosesau llywodraethu da. Mae deddfwriaeth yn ymwneud â'r ddau beth hyn, ac mae mwy o fanylion yn Atodiad 3.

2 Yn ein hadolygiad fe roesom ni sylw i'r trefniadau sydd gan Gyngor Sir Penfro (y Cyngor) i ymdrin â chwynion gan weithwyr a hefyd â phryderon chwythu'r chwiban. Roedd yr adolygiad hefyd yn rhoi sylw i'r trefniadau penderfynu y mae'r Cyngor yn eu defnyddio er mwyn penderfynu ar ba un a ddylai ymdrin â phryderon yn unol â gweithdrefnau cwyno neu chwythu'r chwiban.

3 Yn rhan o'n hadolygiad, 'Trefniadau i Gefnogi Diogelu Plant' yn 2014, edrychasom ar sut yr oedd y Cyngor yn ymdrin ag achosion o chwythu'r chwiban. Canfuom fod trefniadau chwythu'r chwiban yn gadarn ar y cyfan, ond bod angen mynd i'r afael ag ambell fan gwan mewn polisïau, prosesau a hyfforddiant[1]. Mae Atodiad 1 yn rhestru'r cynigion ar gyfer gwella a wnaethom ni a'n barn ar y cynnydd a wnaed.

4 Yn sgil hyn cynhaliodd y Cyngor adolygiad dan arweiniad cynghorwyr ynglŷn â pha mor effeithiol oedd eu polisïau a'u gweithdrefnau chwythu'r chwiban. Anfonodd y Cynghorwyr a oedd ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen adroddiad[2] ynglŷn â'u canfyddiadau at y Pwyllgor Goruchwylio a Chraffu ar Ddiogelu yn 2015. Mae Atodiad 2 yn rhestru'r saith argymhelliad a wnaed a'n barn ar y cynnydd a wnaed.

5 Mae enghreifftiau diweddar o bryderon chwythu'r chwiban y mae gweithwyr wedi eu crybwyll wedi codi'r cwestiwn o ba un a yw'r Cyngor yn ymdrin yn effeithiol â materion a ddygwyd i'w sylw a hynny yn unol â'r polisi cywir. Felly, fe wnaethom benderfynu edrych eto ar bolisïau'r Cyngor a chraffu'n fanwl ar y gweithdrefnau o ran ymdrin â chwynion a chwythu'r chwiban.

6 Gofynasom '**Oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol i fynd i'r afael â phryderon chwythu'r chwiban a chwynion gan weithwyr?**'

Penderfynasom **fod angen i'r Cyngor wella sut y mae'n ymdrin â chwynion gan weithwyr ac achosion o chwythu'r chwiban, a mynd i'r afael â materion a godwyd mewn adolygiadau chwythu'r chwiban blaenorol,** oherwydd:

[1] Swyddfa Archwilio Cymru, **Trefniadau'r Awdurdod Lleol i Gefnogi Diogelu Plant – Cyngor Sir Penfro.** Rhagfyr 2014.

[2] Cyngor Sir Penfro, Adroddiad i'r Pwyllgor Goruchwylio a Chraffu ar Ddiogelu – **Adolygiad o Weithdrefn Chwythu'r chwiban Cyngor Sir Penfro**. 25 Mehefin 2015.

- mae polisïau chwythu'r chwiban a chwyno y Cyngor yn hawdd eu darllen ond mae diffyg manylion gweithdrefnol ynddynt;
- mae hyfforddiant chwythu'r chwiban yn dda ond nid yw'n orfodol felly nid yw pob rheolwr, llywodraethwr a chynghorydd wedi ei gael; a
- bu'r cyngor yn ara deg yn gweithredu'r cynigion a'r argymhellion a wnaed mewn adolygiadau blaenorol o drefniadau chwythu'r chwiban.

# Cynigion ar gyfer gwella

7 Mae'r tabl isod (Arddangosyn 1) yn cynnwys ein cynigion o ran y ffyrdd y gallai'r Cyngor wella pa mor effeithiol yw ei bolisïau a'i weithdrefnau chwythu'r chwiban a chwyno.

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwell

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| **C1 Dylid sicrhau eglurder o ran swyddogaeth y rheolwr llinell a Phennaeth y Gwasanaeth o ran ymdrin ag achosion o chwythu'r chwiban.**<br>• Dylai'r Cyngor egluro yn ei Bolisi Chwythu'r Chwiban y drefn y dylai 'unigolyn dynodedig', rheolwr llinell neu Bennaeth Gwasanaeth ei dilyn cyn gynted ag y gwneir cwyn berthnasol. Bydd hyn yn:<br>– sicrhau y caiff yr holl bryderon eu cydlynu'n ganolog;<br>– hyrwyddo ffordd gyson o ymdrin â chwynion yn y Cyngor; a<br>– chynorthwyo'r ganolfan gorfforaethol i gadw golwg ar achosion. |
| **C2 Dylid trefnu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r tri 'unigolyn dynodedig' mewnol a nodir ym Mholisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor.**<br>• Mae angen i'r tri 'unigolyn dynodedig' a restrir yn y Polisi Chwythu'r chwiban gyfarfod yn rheolaidd er mwyn adolygu'r cofnodion sydd gan y Cyngor ynglŷn ag achosion cyfredol o chwythu'r chwiban a chwyno.<br>• Byddai'r cyfarfod rheolaidd hwn yn caniatáu i'r 'unigolion dynodedig':<br>– gadw golwg ar ba un a yw'r polisïau cywir yn cael eu defnyddio ledled y Cyngor;<br>– trafod achosion, cadw golwg ar gynnydd ac adolygu'r prosesau a ddilynwyd;<br>– datblygu a hyrwyddo swyddogaeth yr Hyrwyddwyr Chwythu'r Chwiban; a<br>– dwyn risgiau posibl at sylw'r Pwyllgor Archwilio. |
| **C3 Dylid cynnwys amserlenni a dulliau yn y Polisi Chwythu'r Chwiban ar gyfer ymateb i'r bobl hynny sy'n lleisio pryderon a'u diweddaru ynglŷn â'r ymchwiliad**<br>• Dylid cynnwys manylion yn y Polisi Chwythu'r chwiban ynglŷn â'r amserlenni a'r dulliau ar gyfer ymateb i rywun sydd wedi codi pryder a'i rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo/iddi yn ystod yr ymchwiliad. |

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| **C4 Dylid gwneud y modiwl e-ddysgu ynglŷn â chwythu'r chwiban yn orfodol i bob swyddog, cynghorydd a llywodraethwr**<br>• Mae'r Cyngor wedi llunio cwrs hyfforddiant e-ddysgu da ynglŷn â chwythu'r chwiban. Dylid gwneud y cwrs hwn yn orfodol ar gyfer pob swyddog. Dylai'r Cyngor hefyd annog yn frwd cynghorwyr a llywodraethwyr i fynychu er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth. |
| **C5 Dylid egluro swyddogaeth y Tîm Adnoddau Dynol ym Mholisi Cwynion y Cyngor**<br>• Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn rhoi cyngor cyson a chywir a chadw golwg ar achosion, dylai'r Polisi Cwynion ofyn i bob rheolwr llinell gysylltu â'r Tîm Adnoddau Dynol cyn gynted ag y mae gweithiwr yn cwyno. |
| **C6 Dylid adolygu ac addasu Polisi Cwynion y Cyngor i gynnwys:**<br>• eglurhad o bwy sy'n penderfynu a oes angen ymchwilio i gŵyn;<br>• esboniad o bwy fydd yn cwblhau'r ymchwiliad (gan gynnwys sicrwydd y byddai unrhyw swyddog ymchwilio yn ddiduedd);<br>• esbonio sut yr ystyrir barn tystion (e.e. cyfweld gweithwyr eraill); a<br>• rhannu adroddiad ymchwiliad drafft gyda'r achwynydd er mwyn iddo allu gwirio cywirdeb y ffeithiau. |

# Atodiad1

## Cynigion ar gyfer Gwella o'n Hadolygiad Chwythu'r Chwiban yn 2014

Arddangosyn 1: Cynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella sy'n deillio o adolygiad 2014[3] sy'n ymwneud â pholisi a threfniadau chwythu'r chwiban Cyngor Sir Benfro.

Mae'r tabl yn dangos y pedwar prif argymhelliad ar gyfer gwella o'n hadolygiad yn 2014 o bolisi a threfniadau chwythu'r chwiban Cyngor Sir Penfro

| Cynigion Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer gwella sy'n deillio o waith 2014 |
|---|
| Cryfhau trefniadau chwythu'r chwiban drwy:<br>• Gryfhau'r Polisi Chwythu'r Chwiban ymhellach drwy:<br>o egluro'r drefn o ran archwiliadau;<br>o bod yn bendant ynglŷn â lleisio pryderon yn hytrach nag anwybyddu camymddwyn<br>o egluro'r gwahaniaeth rhwng chwythu'r chwiban a chwynion; a<br>o darparu dolenni at y rhestr gyflawn o'r unigolion dynodedig allanol.<br>• Cynnwys cynghorwyr yn y gwaith o graffu ar y polisi a'r trefniadau chwythu'r chwiban, a'u perfformiad.<br>• Datblygu, drwy hyfforddiant, gwybodaeth am y polisi a'r gweithdrefnau chwythu'r chwiban ymhlith rheolwyr, y bobl a enwir yn y polisi a chynghorwyr.<br>• Cynllunio sut y caiff yr holl staff eu diweddaru ynglŷn â'r trefniadau chwythu'r chwiban ac adolygu'r dulliau o wirio ymwybyddiaeth staff. |

8 Yn yr adolygiad hwn canfuom fod Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor yn dal i fod wedi ei strwythuro'n dda ac yn ddarllenadwy, ond byddai'n elwa ar fod yn fwy eglur a chynnwys rhagor o fanylion:

- mae'r polisi'n nodi mai rheolwyr llinell a phenaethiaid gwasanaethau yw'r bobl gyntaf i droi atynt pan fo unigolyn eisiau lleisio pryder. Er mwyn i hyn lwyddo mae angen i bob rheolwr llinell fod wedi ei hyfforddi'n dda ac yn gyfarwydd â'r weithdrefn gywir i'w dilyn. Fodd bynnag, does dim manylion yn y Polisi ynglŷn â sut y trosglwyddir cwyn gan y rheolwr llinell i'r ganolfan gorfforaethol. Mae perygl, felly, y gallai rheolwyr glywed pryderon chwythu'r

[3] Swyddfa Archwilio Cymru, **Trefniadau'r Awdurdod Lleol i Gefnogi Diogelu Plant – Cyngor Sir Penfro.** Rhagfyr 2014.

chwiban ond peidio â throsglwyddo hynny i'r ganolfan gorfforaethol fel y gellir gweithredu yn effeithiol ac effeithlon. Felly, mae'n bosib nad yw'r ganolfan gorfforaethol yn ymwybodol o'r holl achosion o chwythu'r chwiban sydd ar hyn o bryd 'ar y gweill' yn y sefydliad. Dylai'r Cyngor roi canllawiau clir i reolwyr ynglŷn â sut i ymdrin â phryderon y mae eu staff yn eu dwyn i'w sylw ac egluro'n glir pa hyfforddiant arbenigol sydd ei angen arnynt fel y gallan nhw gyflawni eu swyddogaeth.

- mae'r Cyngor wedi dynodi dau Hyrwyddwr Chwythu'r Chwiban i godi ymwybyddiaeth ym mob rhan o'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r Polisi Chwythu'r chwiban yn cynnwys enwau'r ddau unigolyn hyn nac ychwaith yn disgrifio eu swyddogaeth.
- mae'r tri 'unigolyn dynodedig' a enwir yn y Polisi Chwythu'r Chwiban yn uwch reolwyr ac fe allai hynny atal pobl rhag lleisio pryderon.
- mae'r Polisi Chwythu'r Chwiban yn dweud bod y Cyngor yn annog pobl i beidio â chwythu'r chwiban yn ddienw, a allai atal rhai pobl rhag lleisio pryderon. Er y gallai chwythu'r chwiban yn ddienw wneud ymchwilio yn fwy anodd, byddai honiadau dienw yn well na chadw'n ddistaw ynglŷn ag achosion o gamymddwyn difrifol.
- er bod y Polisi Chwythu'r chwiban yn rhestru'n glir dri 'unigolyn dynodedig' yn y Cyngor i wrando ar achosion o chwythu'r chwiban, nid yw'r tri unigolyn hyn yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu achosion. Rhoddodd y Cyngor gofnodion inni o gwynion ac achosion o chwythu'r chwiban ar gyfer ein gwaith maes. Nid oes unrhyw bwyllgor ffurfiol yn cael y cofnodion hyn. Doedd yr wybodaeth yn y cofnodion ddim yn fanwl-gywir. Pe byddai'r tri 'unigolyn dynodedig' yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu'r cofnodion byddent yn gallu gwirio'r data, gwirio'r cynnydd a wneir o ran yr achosion a sicrhau bod pawb yn dilyn y weithdrefn gywir.
- mae'r Polisi Chwythu'r chwiban yn datgan y caiff y sawl sy'n lleisio pryderon wybod y diweddaraf ynglŷn â sut mae'r ymchwiliad yn mynd rhagddo ac am faint o amser y mae'n debygol o bara. Fodd bynnag, does dim sôn am amserlenni penodol. Yn yr un modd, does dim sôn am sut y bydd y Cyngor yn diweddaru'r sawl a leisiodd y pryder a pha mor aml y dylid rhoi diweddariad o'r fath.

9 Nid yw'r Cyngor yn cyflwyno data chwythu'r chwiban i'r Pwyllgorau Goruchwylio a Chraffu o hyd ond mae'r Cyngor yn cwblhau'r templed ac yn penderfynu pa bwyllgorau ddylai gael y data.

10 Dywedodd yr holl ysgolion y siaradasom â nhw eu bod wedi mabwysiadu polisïau'r Cyngor ynglŷn â chwythu'r chwiban a chwyno. Fodd bynnag, nid oedd pob ysgol yn gallu darparu'r fersiwn gywir o'r Polisi Chwythu'r Chwiban.

11 Mae deunydd e-ddysgu newydd y Cyngor ynglŷn â chwythu'r chwiban yn dda ond nid yw'n orfodol. Nid yw'r Cyngor wedi cynllunio sut i gyflwyno'r hyfforddiant nac wedi egluro pwy y bydd angen iddynt ei gwblhau.

# Atodiad 2

## Argymhellion gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor

Arddangosyn 2: argymhellion wedi eu codi o ‘Cyngor Sir Penfro: Adroddiad i’r Pwyllgor Goruchwylio a Chraffu – **Adolygiad o Weithdrefn Chwythu’r Chwiban Cyngor Sir Penfro,** 25 Mehefin 2015.

| Argymhellion |
|---|
| **Pennawd yr argymhelliad**<br>A1 Dylid sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen yn cynnwys swyddogion ac aelodau er mwyn adolygu ac ailddrafftio’r polisi chwythu’r chwiban fel y bo’n briodol, gan roi sylw penodol i’r canlynol:.<br>a) sicrhau bod y ddogfen yn hawdd ei deall, ei bod wedi ei hysgrifennu mewn Saesneg clir ac ar gael yn Gymraeg hefyd;<br>b) bod yr iaith yn gefnogol a chalonogol i rywun sy’n ystyried chwythu’r chwiban, ac yn ei gwneud yn glir bod chwythu’r chwiban yn ‘fater i bawb’;<br>c) crisialu’r gwahaniaeth rhwng cwyn a chwythu’r chwiban<br>d) adolygu pa mor briodol yw ‘unigolion dynodedig’ y Cyngor<br>Ar ôl cwblhau hyn:<br>e) dylid ymgynghori’n llawn ar y polisi diwygiedig gyda phob rhanddeiliad;<br>f) dylid paratoi strategaeth gyfathrebu i hyrwyddo’r polisi a chodi ymwybyddiaeth ledled y sefydliad (pob un o’r rhain i’w gwneud erbyn diwedd mis Mawrth 2016) |
| A2: Ar ôl adolygu’r polisi chwythu’r chwiban, dylid ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ynghyd â datganiad cyhoeddus, ar ran yr holl swyddogion ac aelodau, o’r ymrwymiad a’r gefnogaeth i ddiogelu’r rhai sy’n chwythu’r chwiban (i’w gwblhau erbyn mis Ebrill 2016). |
| A3: I wella ymwybyddiaeth gweithwyr:<br>a) dylid datblygu pecyn hyfforddiant sy’n orfodol i bob gweithiwr (i’w gyflwyno yn ystod 2016-17);<br>b) yr arolwg staff i’w gynnal bob blwyddyn er mwyn gweld beth yw agweddau staff (bob mis Ebrill);<br>c) sefydlu blwch e-bost cyffredinol i dderbyn gwybodaeth ynglŷn â chwythu’r chwiban, e.e. whistle-blowing@pembrokeshire.gov.uk.[4] (i’w wneud erbyn diwedd mis Mawrth 2016). |
| A4: Dylid trefnu seminar i’r holl aelodau er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o chwythu’r chwiban (i’w wneud erbyn mis Ebrill 2016). |
| A5: Gwybodaeth reoli mewn cysylltiad â data chwythu’r chwiban i’w chyflwyno ar ffurf adroddiadau chwarterol i bwyllgorau Goruchwylio a Chraffu yr awdurdod (i’w wneud erbyn mis Ionawr 2016). |

[4] Fe wnaeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cyngor ddiddymu Argymhelliad 3c. Cytunwyd ar yr addasiad hwn yng nghyfarfod y Cyngor ar 14 Rhagfyr 2017.

| Argymhellion | |
|---|---|
| A6: | Cadeiryddion y 3 Phwyllgor Goruchwylio a Chraffu sy'n ymwneud â'r adolygiad hwn i benodi aelod etholedig ac uwch swyddog i fod yn hyrwyddwyr chwythu'r chwiban (ni roddwyd amserlen). |
| A7: | Dylid cyflwyno adroddiad ynglŷn â gweithdrefnau chwythu'r chwiban mewn ysgolion i'r pwyllgor Goruchwylio a Chraffu ar gyfer Plant a Theuluoedd (erbyn mis Ebrill 2016). |

12 Yn yr adolygiad hwn canfuom y bu'r Cyngor yn ara deg yn mynd i'r afael â rhai o'r argymhellion hyn, er enghraifft:

- Roedd ar argymhelliad A3b eisiau i'r Cyngor gynnal arolwg staff blynyddol i weld beth oedd agweddau'r staff ynglŷn â chwythu'r chwiban. Mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud hyn yn rhan o arolwg gweithlu ehangach.
- Dilynodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyngor yr adran Adnoddau Dynol i ddiddymu argymhelliad A3c. Penderfynodd y Grŵp nad cael cyfrif e-bost penodol i staff anfon pryderon ato fyddai'r ffordd orau o weithredu.
- Roedd argymhelliad A5 yn gofyn i'r Cyngor gyflwyno data chwythu'r chwiban i'r Pwyllgorau Goruchwylio a Chraffu yn chwarterol. Newidiodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr argymhelliad hwn ym mis Tachwedd 2017 i fod yn adroddiad blynyddol. Ni weithredwyd hyn yn llawn eto, ond mae'r Cyngor yn cwblhau'r templed ac yn penderfynu ar ba bwyllgorau y dylid anfon y data atynt.
- Roedd argymhelliad A7 yn gofyn am roi cyflwyniad i'r Pwyllgor Goruchwylio a Chraffu ar gyfer Plant a Theuluoedd ynglŷn â chwythu'r chwiban mewn ysgolion. Mae'r argymhelliad hwn yn dal i fod heb ei wneud.

# Atodiad 3

## Diffinio Chwythu’r Chwiban a Chwyno

### Chwythu’r Chwiban

13 Yn unol â Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998[5], mae modd i weithiwr ddatgelu gwybodaeth i’w gyflogwr – gelwir hyn yn chwythu’r chwiban. Mae chwythu’r chwiban yn fodd i weithiwr roi gwybod am gamymddwyn, peryglon neu gamweithredu y mae yn ymwybodol ohonyn nhw yn y gweithle, ac i gael ei amddiffyn gan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd. I gael ei amddiffyn, mae’n rhaid i weithiwr sy’n datgelu gwybodaeth gredu dau beth yn rhesymol. Yr un cyntaf yw ei fod yn gweithredu er lles y cyhoedd. Yr ail yw bod y datgelu yn tueddu i ddangos bod y camymddwyn presennol, y camymddwyn a oedd yn digwydd yn y gorffennol, a’r camymddwyn sy’n debygol o ddigwydd yn y dyfodol yn perthyn i un neu fwy o’r dosbarthiadau canlynol:

- troseddau (fe allai hyn gynnwys, er enghraifft, mathau o gamymddwyn ariannol, megis twyll);
- methu â chydymffurfio â gofyniad cyfreithiol;
- camweinyddu cyfiawnder;
- peryglu iechyd a diogelwch rhywun;
- difrodi’r amgylchedd; a
- chuddio camymddwyn yn y dosbarthiadau uchod.

14 Mae’n arfer dda i gyflogwyr greu mannau gweithio agored, gonest a diogel ble mae gweithwyr yn teimlo y gallan nhw leisio pryderon. Er nad yw’r gyfraith yn ei gwneud hi’n angenrheidiol bod polisi chwythu’r chwiban gan gyflogwyr, mae polisi chwythu’r chwiban yn dangos ymrwymiad cyflogwr i wrando ar bryderon gweithwyr.

15 Mae’r Cyngor hefyd yn ‘unigolyn dynodedig’ o dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd. Mae modd datgelu gwybodaeth i’r Cyngor o dan yr amgylchiadau canlynol pan nad y Cyngor yw’r Cyflogwr:

- cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr;
- cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth diogelwch bwyd;
- materion a allai effeithio ar iechyd a diogelwch unrhyw unigolyn yn y gwaith; a
- materion a allai effeithio ar iechyd a diogelwch unrhyw aelod o’r cyhoedd sy’n tarddu o, neu sy’n gysylltiedig â, gweithgareddau pobl wrth eu gwaith.

[5] Yn benodol, Rhan IVA o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 yw hyn. Ychwanegwyd Rhan IVA i Ddeddf 1996 yn sgil Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd

## Cwyn

16 Mae gwahaniaeth rhwng cwyn a chwythu'r chwiban. Mae cwyn yn fater personol yn hytrach nag un o bryder mwy cyffredinol, neu un sy'n effeithio ar eraill.

17 Mae cwyn yn bryder, problem neu fater y mae gweithiwr yn dwyn i sylw ei gyflogwr yn ymwneud â'i gyflogaeth. Gall unrhyw un sy'n gweithio mewn sefydliad, ar unrhyw amser, fod â phroblem, mater neu bryder ynglŷn â'u gwaith y maen nhw'n dymuno eu datrys. Gall cwyn fod ynghylch:

- y pethau y gofynnir i weithiwr ei wneud yn rhan o'i waith;
- telerau ac amodau y cytundeb cyflogaeth;
- y ffordd y caiff gweithiwr ei drin yn y gwaith;
- iechyd a diogelwch;
- camwahaniaethu yn y gwaith;
- anghytuno gyda chydweithwyr; ac
- aflonyddu, bwlio neu wneud cam â rhywun

18 Daeth y Ddeddf Gyflogaeth (2008) i rym ym mis Ebrill 2009 a diddymu'r prosesau statudol blaenorol ynglŷn â gweithdrefnau disgyblu, cwyno a diswyddo. Cawsant eu disodli gan god ymarfer gwirfoddol Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu ynglŷn â Gweithdrefnau Disgyblu a Chwyno (Y Cod ACAS). Diweddarwyd y cod hwn ym mis Mawrth 2015.

19 Mae'r Cod yn egluro'r egwyddorion o ran ymdrin â materion disgyblu a chwynion yn y gweithle. Nid yw methu â dilyn y Cod, ynddo'i hun, yn golygu y gellir dwyn achos cyfreithiol yn erbyn unigolyn neu sefydliad. Fodd bynnag, dylai cyflogwyr a gweithwyr ddilyn y Cod i sicrhau safon resymol o ymddygiad, ac mae rheidrwydd cyfreithiol ar dribiwnlysoedd cyflogaeth i roi sylw i'r Cod wrth ystyried achosion perthnasol.

20 Mae'r Cod ACAS yn nodi'r camau canlynol sydd i'w dilyn cyn gynted ag y mae'r gweithiwr wedi rhoi gwybod i'r cyflogwr am natur y gŵyn:

- cynnal cyfarfod ffurfiol gyda'r gweithiwr i drafod y gŵyn cyn gynted â phosib;
- caniatáu i'r gweithiwr ddod â rhywun gydag ef neu hi i'r cyfarfod;
- penderfynu ar ffordd briodol o weithredu ac ysgrifennu at y gweithiwr yn egluro'r canlyniad; a
- chaniatáu i'r gweithiwr fynd â'r gŵyn ymhellach drwy gyfrwng proses apelio ddiduedd.

21 Mae hi'n bwysig fod gan sefydliad weithdrefnau clir ar gyfer datrys cwynion neu anghydfod ac y rhoddir gwybod i bob gweithiwr am y rhain. Mae'n rhaid i reolwyr llinell ac unrhyw un sy'n rhan o reoli a gwrando ar gwynion fod wedi dilyn hyfforddiant priodol a bod canllawiau ar gael iddynt. Mae'r sefydliad yn gyfrifol am sicrhau y caiff pob anghydfod a chŵyn eu trin yn deg a chyson ledled y sefydliad.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru